WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

**Date issued:** Awst 2019

# Digwyddiadau'r Gyfnewidfa Arfer Da: Cylch Gorchwyl

## Cefndir

1. Sefydlwyd Swyddfa Archwilio Cymru gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ('Y Ddeddf) fel corff corfforaethol sy'n gyfrifol am
2. Ddarparu adnoddau at weithredoedd Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) a
3. Monitro'r modd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gweithredu.
4. Yn unol ag adran 19 y Ddeddf, gall Swyddfa Archwilio Cymru hefyd ddarparu gwasanaethau gweinyddol, technegol neu broffesiynol i gyrff cyhoeddus eraill trwy gytundeb.
5. Mae'r Gyfnewidfa Arfer Da (CAD) yn adran o Swyddfa Archwilio Cymru sy'n darparu seminarau dysgu ar y cyd, gweminarau a digwyddiadau ('Digwyddiad(au) CAD') i gyrff a'u harchwilir trwy gytundeb yn unol ag adran 19 y Ddeddf.

## Mynychu a Chytuno

6. Mae staff cyrff a'u harchwilir, ar ran y corff sy'n eu cyflogi, yn cytuno i dderbyn gwasanaethau a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru trwy gofrestru i fynychu digwyddiad CAD, sy'n briodol i'r Cylch Gorchwyl hwn. Wrth gofrestru ar gyfer digwyddiad, mae staff yn cadarnhau bod ganddynt awdurdod i gytuno i ddarpariaeth y gwasanaeth ar ran eu cyflogwr a bod hawl ganddynt i fynychu'r digwyddiad.
7. Pan fo digon o le, mae croeso i staff sefydliadau'r trydydd sector, elusennau a mentrau neu fudiadau cymdeithasol, a phersonau eraill sydd â diddordeb fynychu digwyddiadau CAD.
8. Fel arfer, rydym yn darparu digwyddiadau CAD ar gost isel neu'n rhad ac am ddim i fynychwyr.
9. Ceir esboniad am y modd rydym yn trin data personol a ddarperir gan fynychwyr a chyfranwyr mewn nodyn prosesu teg sydd ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

## Pwrpas Digwyddiadau CAD

10. Mae CAD yn llunio digwyddiadau am y rhesymau canlynol:
    - hwyluso rhannu esiamplau o ymarfer da ac astudiaethau achos;
    - datblygu a chymhwyso dysgu oddi wrth esiamplau o ymarfer da;
    - hwyluso datblygiad rhwydweithio a chydweithio cefnogol ar draws cyrff y sector cyhoeddus
    - cynorthwyo cyrff cyhoeddus i ystyried sut mae gwella arferion a chreu newid.
11. Gall digwyddiadau CAD gymryd y ffurfiau canlynol:
    a. **Seminar Dysgu ar y Cyd**, gan gyfuno cyflwyniadau gan siaradwyr allweddol a gweithdai ymarferol, hwylus. Fel arfer, bydd seminarau'n cael eu cynnal mewn dau leoliad, un yn Ne Cymru a'r llall yn y Gogledd.
    b. **Gweminar,** gyda thrafodaeth banel hwylus, yn ystyried pwnc penodol gyda chyfle am gyfraniadau a chwestiynau oddi wrth gynulleidfa ar-lein.
    c. **Digwyddiad Swyddfa Archwilio Cymru,** fel cynhadledd i nifer mwy sylweddol o fynychwyr, gyda chyflwyniadau gan siaradwyr allweddol a gweithdai a thrafodaethau hwylus.

## Trefnu Digwyddiadau

12. Bydd staff CAD yn trefnu a hwyluso digwyddiadau CAD ar ran Swyddfa Archwilio Cymru, a gallent ddarparu Digwyddiadau CAD ar eu pen eu hunain (neu ar y cyd) gyda chyrff cyhoeddus eraill ac/neu sefydliadau'r sector cyhoeddus.
13. Efallai y byddwn yn ymgynghori â chyfranwyr allanol wrth ddatblygu digwyddiadau, ac efallai y byddwn yn eu gwahodd i siarad a chymryd cwestiynau mewn digwyddiad.
14. Mae'r CAD yn hysbysebu digwyddiadau ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru, ar eu blog ac ar Twitter i gyrff a'u harchwilir. Gall staff y cyrff hyn gymryd rhan, awgrymu syniadau a chyfrannu at ddigwyddiadau.

## Cyhoeddusrwydd a'r Cyfryngau Cymdeithasol

15. Mae gan CAD flog a chyfrif Twitter a byddwn yn ysgrifennu am ddigwyddiadau CAD cyn y digwyddiad i'w hysbysebu ac i ennyn diddordeb ynddynt. Efallai y byddwn yn gwahodd cyfranwyr i ysgrifennu ar gyfer blog CAD.
16. Yn ystod digwyddiadau, bydd tîm CAD yn annog mynychwyr a chynulleidfaoedd ar-lein i drydar cwestiynau, eu barn a negeseuon allweddol, a gallent rannu'r rhain ar gyfrif Twitter CAD.